

## Cymdeithas Thorasig Prydain (BTS)

### Gwasanaeth Cyngor Clinigol ar Dwbercwlosis ag Ymwrthedd i'r Prif Gyffuriau (MDRTB) BTS

#### Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

*Mae eich plentyn/y plentyn yn eich gofal yn cael ei wahodd i gymryd rhan mewn prosiect sydd wedi'i sefydlu i wella gofal cleifion. Mae'r plentyn yn cael ei wahodd oherwydd bod ganddo dwbercwlosis ag ymwrthedd i'r prif gyffuriau (MDR-TB) neu haint TB neu fycobacteriwm cymhleth arall.*

*Cyn i chi benderfynu a ddylai'r plentyn gymryd rhan, rydym ni am sicrhau eich bod yn deall beth yw'r prosiect hwn a beth fydd yn ei olygu. Darllenwch y papur hwn yn ofalus. Gallwch siarad ag eraill amdano os ydych yn dymuno, neu gallwch ofyn i ni am ragor o wybodaeth neu os hoffech chi esboniad o rywbeth.*

*Treuliwch amser yn penderfynu a ydych am gymryd rhan yn y prosiect hwn ai peidio; chi sydd i benderfynu.*

#### **Beth yw Gwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB BTS?**

Mae heintiau sy'n cael eu hachosi gan facteria o'r enw twbercwlosis (neu facteria tebyg eraill) yn cael eu trin â chyffuriau. Weithiau, ni ellir defnyddio rhai cyffuriau oherwydd nad ydynt yn gweithio ar yr haint (mae gan yr haint ymwrthedd). Weithiau, ni ellir eu defnyddio am resymau eraill. Mae hyn yn golygu ei bod yn mynd yn anoddach i feddygon drin yr haint.

Mae'r Gwasanaeth Cyngor Clinigol yn helpu meddygon i ofyn am gyngor gan arbenigwyr sydd â llawer o brofiad o drin MDR-TB. Mae'r arbenigwyr hyn yn trafod pob claf ac yn rhoi cyngor ar y ffordd orau o ofalu am y claf a thrin ei haint. I wneud hyn, rydym yn casglu gwybodaeth am gleifion ac yn ei chadw.

Rydym yn cofnodi nifer y bobl, eu lleoliad a manylion am eu hiechyd a'u triniaeth. Mae'r wybodaeth yn cael ei chadw ar gronfa ddata gyfrifiadurol ddiogel a chyfrinachol. Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) sy'n talu am Wasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB BTS, a gellir derbyn grantiau bach i gefnogi'r gwaith hwn.

#### **Pam mae angen Gwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB?**

Mae'r heintiau hyn yn gymhleth ac nid ydynt yn gyffredin iawn. Ym mhob achos, maent yn cael eu trafod gan feddygon ac eraill sydd ag arbenigedd mewn heintiau, cyffuriau, iechyd y cyhoedd, etc. Ychydig iawn o feddygon sydd â phrofiad o drin MDR-TB yn y DU, ac mae ein Gwasanaeth ni yn eu helpu i drafod achosion gyda'i gilydd.

Gan nad yw'r heintiau hyn yn gyffredin iawn, mae dod â gwybodaeth am bobl ledled y DU at ei gilydd yn ddefnyddiol iawn. Mae'n golygu y gallwn ddeall yn well sut mae cleifion yn cael eu trin a beth yw eu canlyniadau. Gall meddygon ddysgu o hyn a darparu gwell gofal i bobl ag MDR-TB yn y dyfodol.

#### **Pa wybodaeth sy'n cael ei chadw gan y Gwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB?**

Mae'r wybodaeth a gasglwn yn debyg i'r wybodaeth a gofnodir yn ystod ymweliad â chlinig. Pethau fel:

- Taldra a phwysau
- Canlyniadau profion eraill (meithriniadau, profion pelydr-x, canlyniadau profion gwaed a thebyg)

- Pa gyffuriau a thriniaethau eraill y mae cleifion yn eu derbyn
- Unrhyw gymhlethdodau sydd gan gleifion.

Rydym hefyd yn cadw gwybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod eich plentyn/y plentyn yn eich gofal (fel enw a dyddiad geni, etc.). **Dim ond** er mwyn galluogi staff sy'n trin cleifion yn yr ysbyty i wybod pa gofnod sy'n perthyn i bwy y mae'r manylion adnabod hyn yn cael eu casglu. Nid yw gwybodaeth a allai gael ei defnyddio i adnabod person **byth** yn cael ei rhyddhau i unrhyw un y tu allan i dîm gofal yr unigolyn (dyw hyd yn oed staff BTS ddim yn gwybod pwy yw'r cleifion).

### **Sut mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu ac ar gyfer beth mae'n cael ei defnyddio?**

Daw'r wybodaeth o'r nodiadau y mae meddygon a nyrsys yn eu gwneud yn ystod ymweliadau ysbyty. Mae'r tîm sy'n gofalu am eich plentyn/y plentyn yn eich gofal yn mewnbynnu'r data i'n Gwasanaeth, a gallant ei ddefnyddio i weld canlyniadau dros amser. Hefyd, gall gwybodaeth am ba gyffuriau y gallai'r haint ymateb iddynt gael ei chynnwys o'r labordai cenedlaethol sy'n profi samplau TB o bob rhan o'r DU.

Mae ein Gwasanaeth yn rhoi mynediad i feddygon at arbenigwyr MDR-TB gorau'r wlad. Mae pob achos yn cael ei adolygu gan yr arbenigwyr hyn gymaint o weithiau ag y bo angen, a rhoddir cyngor ar ba driniaeth fyddai orau. Yn BTS rydym yn dadansoddi gwybodaeth o ysbytai ledled y DU. Mae dadansoddi'r wybodaeth hon yn helpu i wella gofal cleifion drwy ein cynorthwyo ni a'r GIG i ddeall:

- Pa driniaeth cyffuriau sy'n cael ei rhoi i gleifion a pha gyffuriau na allant eu cymryd.
- Sut mae cleifion yn ymateb i'r cyffuriau maen nhw'n eu cael.
- Tueddiadau cenedlaethol (efallai na fydd y rhain yn amlwg mewn un ysbyty yn unig)

### **Sut mae'r Gwasanaeth Cyngor Clinigol yn cefnogi ymchwil?**

Gall ymchwilwyr mewn sefydliadau eraill wneud cais i BTS i gael mynediad at wybodaeth iechyd ddiennw. Bydd data diennw yn cael ei gynnwys **dim ond** os byddwch hefyd yn rhoi caniatâd i'r data gael ei ddefnyddio mewn ymchwil.

Gall y sefydliadau hyn fod yn brifysgolion, Ymddiriedolaethau'r GIG (HSC yng Ngogledd Iwerddon) neu'n gwmnïau sy'n ymwneud ag ymchwil yn y DU neu dramor. Dim ond i gynnal ymchwil yn unol â Fframwaith Polisi'r DU ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol y bydd gwybodaeth yn cael ei defnyddio. Ni fydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i adnabod eich plentyn/y plentyn yn eich gofal ac ni fydd yn cael ei chyfuno â gwybodaeth arall mewn ffordd a allai olygu fod y plentyn yn cael ei adnabod. Dim ond mewn ymchwil y bydd yn cael ei defnyddio; ni ellir ei defnyddio i gysylltu â'r plentyn neu i effeithio ar ei ofal. Ni fydd yn cael ei defnyddio i wneud penderfyniadau am wasanaethau sydd ar gael i'r plentyn yn y dyfodol, fel yswiriant.

Mae BTS yn bwriadu cynnal Gwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB BTS am y dyfodol rhagweladwy a bydd yn cadw'r data am gyfnod amhenodol.

### **A oes raid i fy mhleintyn/y plentyn yn fy ngofal gymryd rhan?**

Na – eich penderfyniad chi yn llwyr yw hynny. Os byddwch yn dewis i'r plentyn gymryd rhan, byddwch yn cael y daflen hon i'w chadw a gofynnir i chi lofnodi ffurflen ganiatâd. Os byddwch yn dewis i'r plentyn beidio â chymryd rhan yn y prosiect hwn, bydd clinigydd y plentyn yn dal i allu gofyn am farn cydweithwyr wrth benderfynu ar driniaeth.

### **A allaf newid fy meddwl yn nes ymlaen?**

Gallwch. Os ydych yn cytuno i'ch plentyn/y plentyn yn eich gofal gymryd rhan, gallwch dynnu'r caniatâd yn ôl oddi wrth y Gwasanaeth ar unrhyw adeg yn y dyfodol heb roi unrhyw reswm. Os byddwch yn dewis tynnu caniatâd yn ôl, bydd clinigydd y plentyn yn dal i allu gofyn am farn cydweithwyr wrth benderfynu ar driniaeth.

Gofynnir i chi hefyd a ydych yn hapus i ddata dienw eich plentyn/y plentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio mewn ymchwil. Mae hyn yn golygu y gellid defnyddio gwybodaeth na ellir ei defnyddio i adnabod y plentyn i'n helpu i ddeall mwy am MDR-TB, heintiau TB a heintiau mycobacteriol eraill cymhleth yn y DU. Nid oes rhaid i chi gytuno i'r wybodaeth gael ei defnyddio mewn ymchwil, ond os byddwch yn gwneud hynny, yna:

- Os byddwch yn tynnu eich caniatâd yn ôl cyn i'ch gwybodaeth gael ei defnyddio mewn unrhyw brosiect ymchwil:  
Bydd yr holl ddata sy'n ymwneud â'r cofnod ar y Gwasanaeth Cyngor Clinigol yn cael ei ddileu'n llwyr. Ni fydd eich data byth yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw astudiaethau ymchwil.
- Os byddwch yn tynnu eich caniatâd yn ôl ar ôl i'ch gwybodaeth gael ei defnyddio mewn unrhyw brosiect ymchwil:  
Bydd unrhyw ddata sy'n ymwneud â'ch cofnod ar y Gwasanaeth Cyngor yn cael ei ddileu'n llwyr. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhywfaint o ddata cwbl ddienn wedi cael ei archifo fel rhan o'r ymchwil honno. Felly, pe bai ymchwilwyr yn edrych ar ymwrthedd i gyffuriau yn unig, dyna'r unig wybodaeth a fyddai'n cael ei chadw. Ni fydd eich data byth yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw astudiaethau ymchwil eraill.

### **A fydd yr wybodaeth am fy mhentyn/y plentyn yn fy ngofal yn gyfrinachol?**

Bydd - cedwir yr holl wybodaeth yn ein Gwasanaeth yn gyfrinachol. Mae'r Gwasanaeth Cyngor Clinigol wedi'i gofrestru o dan y Ddeddf Diogelu Data (2018) ac mae'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil wedi rhoi cymeradwyaeth iddo (adnewyddwyd Tachwedd 2022 22/LO/0698). Fe'i rheolir yn unol â deddfau a chanllawiau moesegol perthnasol.

- Bydd y tîm sy'n trin eich plentyn/y plentyn yn eich gofal yn gallu gweld gwybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod y plentyn (fel enw a dyddiad geni, etc.).
- Yr unig bobl eraill a fydd yn gweld unrhyw wybodaeth adnabyddadwy yw nifer fach o staff yn y cyrff iechyd gwladol. Maent eisoes yn cadw data ar bob achos o TB yn y wlad, ac yn profi samplau TB i weld pa gyffuriau fydd yn gweithio. Rydym yn rhoi rhestr iddynt o rifau adnabod (e.e. rhif y GIG). Mae hyn er mwyn iddynt allu rhoi gwybodaeth ychwanegol i ni, fel pa gyffuriau fyddai'n debygol o helpu.
- Ni all hyd yn oed y tîm yn BTS weld gwybodaeth sy'n caniatáu iddynt adnabod claf, dim ond rhif adnabod dienw'r claf y byddwn yn ei weld.
- Os ydych yn cytuno i ddata eich plentyn/y plentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio mewn ymchwil hefyd, nid yw'r ymchwilwyr hyd yn oed yn cael rhif adnabod dienw claf. Dim ond rhif adnabod untro ar hap y maent yn ei weld ac ni allant ei ddefnyddio i adnabod cleifion mewn unrhyw gronfa ddata.

Mae nifer fach iawn o staff profiadol yn gyfrifol am ddiogelu manylion adnabod cleifion. Maent yn eu hamgryptio ar y gronfa ddata, sy'n golygu bod yr wybodaeth yn cael ei throsi'n god cymhleth iawn nad oes neb yn gallu ei ddarllen. Dim ond staff yn eich ysbyty chi sy'n gallu ei darllen trwy eu cyfrifon diogel. Mae'r staff hyn yn cynnal y system, yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data.

### **A fydd yr wybodaeth yn y Gwasanaeth Cyngor yn cael ei chysylltu â gwybodaeth o unrhyw setiau data eraill?**

Mae'n bosib hefyd y byddwn yn dymuno defnyddio gwybodaeth iechyd a gesglir gan sefydliadau eraill. Mae hyn yn golygu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, NHS Digital neu debyg. I gael yr wybodaeth hon, bydd angen i ni ddatgelu dyddiad geni a rhif Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn unig; bydd y manylion hyn yn cael eu trin yn gyfrinachol ac yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data (2018).

Gallwch gydsynio ar wahân i brosiectau eraill hefyd. Gallai'r rhain gynnwys cofrestrfa, biobanc, treial clinigol neu debyg. Gall ymchwilwyr ofyn am i wybodaeth o'r setiau data hyn gael ei 'chysylltu'. Er Fersiwn 3, Gorffennaf 2022

enghraifft, cysylltu geneteg â pha mor dda y mae'r claf yn ymateb i driniaeth. Mae hyn yn golygu y gallai ymchwilyr o'r prosiect arall weld gwybodaeth am bethau fel triniaeth cyffuriau. Dim ond os ydych chi neu'ch plentyn/y plentyn yn eich gofal wedi rhoi caniatâd penodol i'r ddau brosiect y byddwn yn cysylltu'r setiau data hyn.

Mae defnyddio unrhyw wybodaeth o'n Gwasanaeth yn gofyn am gymeradwyaeth Pwyllgor BTS ffurfiol. Ni fydd gwybodaeth sy'n gallu cael ei defnyddio i adnabod cleifion **byth** yn cael ei rhoi i unrhyw un arall nac yn cael ei chyhoeddi.

### **Eich hawliau data**

Cymdeithas Thorasig Prydain yw'r rheolydd data ar gyfer y prosiect hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, os ydych am wneud cwyn neu os ydych am i wybodaeth am eich plentyn/y plentyn yn eich gofal gael ei thynnu oddi ar Wasanaeth Cyngor Clinigol MDR-TB BTS, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data yn [mdrtb@brit-thoracic.org.uk](mailto:mdrtb@brit-thoracic.org.uk) neu anfonwch lythyr i Cymdeithas Thorasig Prydain/British Thoracic Society, 17 Doughty Street, London WC1N 2PL.

Os nad ydych yn fodlon â'n hymateb neu'n credu ein bod yn prosesu eich data personol mewn ffordd anghyfreithlon, gallwch gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

***Diolch am roi o'ch amser i ddarllen y daflen wybodaeth hon ac am ystyried cymryd rhan yng Ngwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB BTS. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, siaradwch ag aelod o'r tîm gofal yn eich ysbyty neu cysylltwch â Rheolwr y Gwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB yng Nghymdeithas Thorasig Prydain ar 020 7831 8778.***

28/07/2022

**FFURFLEN CANIATÂD RHIANT/GWARCHIEDWAD**  
**Gwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB Cymdeithas Thorasig Prydain**

Enw'r claf:
Rhif GIG/CHI:
Rhif Adnabod y Claf (yr ysbyty i gwblhau hwn):

Rhowch  
lythrennau  
blaen eich  
enw os  
gwelwch  
yn dda

1.	Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y daflen wybodaeth dyddiedig mis Gorffennaf 2022 (fersiwn 3) ar gyfer yr astudiaeth uchod. Rwyf wedi cael cyfle i ystyried yr wybodaeth a gofyn cwestiynau ac rwyf wedi cael atebion boddhaol.	
2.	Rwy'n deall nad oes rhaid i mi gytuno a gallaf newid fy meddwl ar unrhyw adeg, heb roi unrhyw reswm. Ni fydd gofal meddygol na hawliau cyfreithiol fy mhlentyn/y plentyn yn fy ngofal yn cael eu heffeithio.	
3.	Rwy'n deall y gall nifer fach o bobl gyfrifol o'r tîm meddygol, y grŵp o arbenigwyr MDR-TB a Chymdeithas Thorasig Prydain edrych ar wybodaeth iechyd a gofal fy mhlentyn/y plentyn yn fy ngofal. Rwy'n rhoi caniatâd i'r bobl hyn gael mynediad at y cofnodion.	
4.	Rwy'n deall y gall gwybodaeth a gedwir gan y GIG (neu'r HSC yng Ngogledd Iwerddon) a chofnodion a gynhelir gan sefydliadau fel y cyrff iechyd cyhoeddus cenedlaethol gael ei defnyddio i ddilyn statws iechyd fy mhlentyn/y plentyn yn fy ngofal	
5.	Deallaf na fydd gwybodaeth a all gael ei defnyddio i adnabod fy mhlentyn/y plentyn yn fy ngofal <b>byth</b> yn cael ei rhoi i unrhyw un arall nac yn cael ei chyhoeddi gan Wasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB BTS.	
6.	Rwy'n deall - oni bai fy mod yn optio allan o sefyllfa ble mae data'n cael ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil - y gall data heb fanylion adnabod <b>na all</b> gael ei ddefnyddio i adnabod fy mhlentyn/y plentyn yn fy ngofal gael ei rannu ag ymchwilwyr, yn y DU ac mewn gwledydd eraill, i'w ddadansoddi ymhellach.	
7.	Rwy'n deall y gall fy mhlentyn/y plentyn yn fy ngofal gymryd rhan yn y Gwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB hyd yn oed os nad wyf yn cytuno i'w ddata heb fanylion personol gael ei ddefnyddio mewn ymchwil.	
<b>8.</b>	<b>Rwy'n cytuno i gymryd rhan yng Ngwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB BTS.</b>	

**Optio allan o ymchwil ar MDR-TB**

9.	Er fy mod yn cytuno i'm plentyn/y plentyn yn fy ngofal gymryd rhan yn y Gwasanaeth Cyngor Clinigol, <b>nid</b> wyf yn cytuno i'w ddata heb fanylion adnabod personol gael ei ddadansoddi at ddibenion ymchwil.	
----	--	--

Enw rhiant/gwarcheidwad	Llofnod	Dyddiad

Enw'r person sy'n derbyn y cydsyniad	Llofnod	Dyddiad

**Ar gyfer y rhiant/gwarcheidwad:** efallai eich bod wedi cael y daflen hon i'w chwblhau gartref. Llenwch y ffurflen a'i dychwelyd i'r tîm yn yr ysbyty. Gallwch gwblhau/dychwelyd y ffurflen:

- Trwy lofnodi copi papur a'i ddychwelyd i'ch tîm ysbyty drwy'r post, ei sganio neu dynnu llun ohono a'i ddychwelyd mewn e-bost.
- Trwy lofnodi copi electronig naill ai drwy ludo neu deipio eich llofnod, a'i ddychwelyd i'ch tîm ysbyty mewn e-bost.

**Ar gyfer yr ysbyty:** pan fydd y ffurflen wedi ei chwblhau, sicrhewch fod gennych dri copi - un ar gyfer y rhiant/gwarcheidwad, un i'w gadw yn nodiadau meddygol y claf, ac un (y gwreiddiol, os yw'r copi hwnnw wedi'i lofnodi) ar gyfer ffeil y safle.